Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cynllun Cydraddoldeb Anabledd
Adroddiad Arolygu
2006 / 2007

Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Anabledd (CCA) cyntaf ym mis Rhagfyr 2006 yn unol â gofynion y Ddyletswydd Anabledd sydd ar gyrff cyhoeddus trwy Ddeddf Anffafrio'r Anabl 2005. Datblygwyd y CCA mewn partneriaeth â phobl anabl, defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau lleol.

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf y Cyngor ar y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd am y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2006 a 1 Ionawr 2008.

Bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol a byddwn yn adolygu'r Cynllun o leiaf bob tair blynedd.

Canolog i CCA y Cyngor yw'r cynllun gweithredu sy'n dangos deg amcan allweddol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau pobl leol a nodwyd trwy gyfres o achlysuron ymgysylltu ac ymgynghori gan gynnwys holiadur lleol, digwyddiadau lleol cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgynghori ffurfiol yn 2005.

I helpu i ni fesur ein cynnydd rydym wedi defnyddio trefniadau presennol y Cyngor i gadw golwg ar berfformiad. Yn ogystal cynhaliodd Grŵp (Arolygu ac Adolygu) y CCA weithdy i fesur cynnydd rhwng mis Rhagfyr 2006 a mis Rhagfyr 2007 gyferbyn â phob un o'r deg amcan a bennwyd yng nghynllun y Cyngor. Ystyriodd y grŵp y cynllun gweithredu gan asesu cynnydd fel "Gwael", "Gweddol", "Da" neu "Ragorol". Fe welwch o'r tablau yn yr adroddiad hwn sut yr ystyriwyd pob amcan at ei gilydd a'r rhai y mae'r CCA yn eu hystyried yn feysydd blaenoriaethol ar gyfer 2008.

Mae'r tablau yn yr adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi'r camau a gymrwyd a blaenoriaethau 2008.

Mae crynodeb o weithdy'r Grŵp CCA ar ddiwedd yr adroddiad hwn fel Atodiad 1.

Grŵp (Arolygu ac Adolygu) y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

Sefydlwyd (Grŵp Arolygu ac Adolygu) y CCA yn Rhagfyr 2006 i arolygu ac adolygu CCA y Cyngor yn ystod ei oes. Cadeirydd y Grŵp yw Malcolm Russell, Cyfarwyddwr Strategol, a etholwyd gan Grŵp y CCA yn gynnar yn 2007.

Mynychodd aelodau'r Grŵp CCA sesiwn hyfforddi arbennig i helpu iddynt ddeall y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r agenda cydraddoldeb ehangach. Cyflwynodd y sesiwn hefyd y prosesau a threfniadau mewnol ar gyfer rheoli a phrif ffrydio cydraddoldeb - gan gynnwys arolygu cydraddoldeb ac asesiadau effaith.

Bydd Grŵp y CCA yn derbyn diweddariadau chwarterol ar gynnydd gyferbyn â'r camau gweithredu a nodwyd yn y CCA. Yn ogystal bydd gweithdai blynyddol yn cael eu cynnal i ysbrydoli ein hadroddiad blynyddol. Yn y gweithdai bydd disgwyl i Grŵp y CCA bwyso a mesur cynnydd gyferbyn â'r cynllun gweithredu a nodi blaenoriaethau'r flwyddyn a ddaw.

Mae dros 70 o bobl ar restr bostio Grŵp y CCA a byddant yn derbyn agendâu, adroddiadau a gwybodaeth berthnasol arall am gyfarfodydd a digwyddiadau. Ar gyfartaledd mae tuag 20 o bobl yn y cyfarfod – yn cynnwys rhyw 15 o ddefnyddwyr gwasanaethau a rhyw 5 o bobl sydd

naill ai'n staff y Cyngor neu o sefydliadau partner fel NEWI, Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam neu AVOW.

Mae'r Grŵp wedi datblygu'n fforwm ystyrlon i drafod CCA y Cyngor a rhwydweithio gyda phobl leol anabl. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth ac ymroddiad parhaus aelodau Grŵp y CCA ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr. Yn ddiamau, mae'r Grŵp yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu agwedd y Cyngor at anabledd.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i wneud cyfarfodydd Grŵp y CCA mor hygyrch ag y bo modd:

- Yn yr holl gyfathrebu ynghylch cyfarfodydd a digwyddiadau bydd pobl yn cael holi ynghylch eu hanghenion mynediad a chaiff pob ymdrech ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Mae gwasanaethau ategol fel dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain ar gael ar gais.
- Caiff holl ddogfennau sy'n cael eu cyflwyno i Grŵp y CCA eu cynhyrchu mewn ffont Arial 14 o leiaf hyd y bo modd.
- Mae trefniadau'n bodoli i ad-dalu treuliau teithio defnyddwyr gwasanaethau.
- Bydd amser cyfarfodydd bob yn ail rhwng y dydd a'r hwyr i roi cyfle i'r bobl hynny sydd naill ai'n gweithio neu'n astudio.
- Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn ystafell hygyrch gyda system sain sy'n boblogaidd gyda phobl anabl.
- Bydd agendâu a phapurau'n cael eu hanfon (ar y ffurf a geisiwyd) wythnos cyn y cyfarfod a bydd cofnodion yn cael eu dosbarthu wythnos ar ôl y cyfarfod hyd y bo modd.

Caiff cofnodion Grŵp y CCA eu cylchredeg hefyd i Grŵp Wrecsam Hygyrch ac i'r Grŵp Amhariad Corfforol, Niwrolegol a Synhwyraidd er gwybodaeth.

Mae Grŵp y CCA hefyd yn derbyn cofnodion Grŵp Wrecsam Hygyrch er gwybodaeth ac i atgyfnerthu rhwydweithiau lleol a rhannu gwybodaeth yn well.

Atodwyd Cylch Gorchwyl Grŵp y CCA at yr adroddiad hwn fel Atodiad 2.

Grŵp Wrecsam Hygyrch

Sefydlwyd Grŵp Wrecsam Hygyrch (GWH) yn 2006 yn dilyn adolygiad y Grŵp Rhanddeiliaid Materion Anabledd, y Gweithgor Anabledd gynt. Mae aelodaeth GWH wedi cynyddu ers yr adolygiad ac mae'r Grŵp yn cael ei gydnabod fel grŵp pwysig i ymwneud a gweithio gydag ef.

Bydd GWH yn cyfarfod bob chwarter ac yn trafod materion perthnasol i fynediad gan gynnwys materion cynllunio a datblygu. Cadeirydd y Grŵp yn ar hyn o bryd yw'r Cynghorydd Alun Jenkins a etholwyd gan Grŵp GWH.

Swyddogaeth GWH yw gwella mynediad pobl anabl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Yn y cyfarfod bydd y Grŵp yn cael cyflwyniadau ar ddatblygiadau allweddol, prosiectau neu newidiadau i bolisi'r Cyngor sy'n berthnasol i faterion mynediad ac anabledd.

Mae swyddogaeth GWH yn wahanol i un Grŵp y CCA sy'n cadw golwg ar Gynllun Cydraddoldeb Anabledd y Cyngor ac yn gwneud argymhellion arno.

Atodwyd Cylch Gorchwyl y Grŵp hwn at yr adroddiad hwn fel Atodiad 3.

Grŵp Amhariad Corfforol, Niwrolegol a Synhwyraidd

Sefydlwyd y Grŵp Amhariad Corfforol, Niwrolegol a Synhwyraidd (PNSI) yn 2005 fel partneriaeth gydag Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion y Cyngor, Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru a defnyddwyr anabl gwasanaethau lleol.

Yn sail i'r Grŵp PNSI mae rhwydwaith o is-grwpiau, yn cael eu galw'n is-grwpiau cynllunio, a sefydlwyd i gyflawni'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant.

Mae gan y Grŵp PNSI ganolbwynt pendant iawn ar iechyd, gofal cymdeithasol a ffyniant a heb gysylltiad ffurfiol â naill ai Grŵp y CCA na GWH ond mae cryn gydweithrediad a rhannu gwybodaeth ymhlith y tri grŵp.

Atodwyd Cylch Gorchwyl y grŵp hwn at yr adroddiad hwn fel Atodiad 4.

Grŵp Ceisiadau Cynllunio a Datganiadau Hygyrchedd

Yn 2007 sefydlwyd grŵp bach o ddefnyddwyr anabl gwasanaethau a phobl leol (aelodau Grŵp y CCA a GWH) i gael mwy o bobl anabl i gymryd rhan yn y broses gynllunio. Bydd y grŵp y cyfarfod uwch-swyddog cynllunio unwaith bob pythefnos i drafod nifer o geisiadau cynllunio a datganiadau hygyrchedd a gyflwynwyd i'r Cyngor eu hystyried.

Cafodd y grŵp gwrs hyfforddiant hanner diwrnod i ymgyfarwyddo'r aelodau â thermau cynllunio a sut i ddarllen cynlluniau. Mae'r grŵp yn cael cefnogaeth barhaol uwch-swyddog cynllunio ymhob cyfarfod a gall unigolion ofyn cwestiynau neu ymateb i geisiadau a datganiadau hygyrchedd unigol.

Nid yw'r grŵp hwn yn disodli'r angen am gyngor arbenigol neu dechnegol i sicrhau ateb gofynion Deddf Anffafrio'r Anabl 1995.

Bydd ymgynghori hefyd â Grŵp Mynediad Wrecsam ar geisiadau lleol ac yn aml bydd yn rhoi cyngor manwl o natur fwy technegol.

Rydym yn derbyn bod gwneud Wrecsam mor hygyrch ag y bo modd yn dibynnu ar dynnu ynghyd llawer o wahanol linynnau gwybodaeth a safbwyntiau, gan gynnwys awgrymiadau ac arweiniad defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau lleol. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r unigolion sy'n ymateb ac sy'n gweithio gyda ni i wella'r amgylchedd adeiledig.

Plant a Phobl Ifanc Anabl

Ymgymerodd y Cyngor â chymryd camau ychwanegol i roi sylw i anghenion plant a phobl ifanc anabl. Codwyd nifer o faterion mewn arolwg "ciplun" a wnaed yn hwyr yn 2005 gyda phobl ifanc anabl.

Yn dilyn cyhoeddi'r CCA ym mis Rhagfyr 2005 cytunodd Grŵp y CCA bod angen cynllun gweithredu ychwanegol yn canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc anabl ac y byddai'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu'n uniongyrchol gyda phobl ifanc anabl.

Yn dilyn adroddiad ar ran Grŵp y CCA yn haf 2007 i Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl

Ifanc cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ddwyn ymlaen ar y llwybr hwn sydd wedi hen sefydlu.

Mae pobl ifanc anabl a chynrychiolwyr DYP Wrecsam a Dyfodol Mwy Disglair yn dal i gael eu yng nghyfarfodydd Grŵp y CCA ac mae'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yn hyblyg i'w hanghenion.

Rhagor o Wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Cydraddoldeb Anabledd y Cyngor cysylltwch â Celia Gibson, Rheolwr Cydraddoldeb, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ffôn 01978 292808 neu drwy e-bost: celia.gibson@wrexham.gov.uk

AMCAN 1: Cynyddu ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth o anabledd a hybu delweddau cadarnhaol o ddynion a merched, bechgyn a merched anabl

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
1.1	Mabwysiadu, hybu a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Patrwm Cymdeithasol o Anabledd	Rheolwr Cydraddoldeb	**Cyfredol✓**
1.2	Mabwysiadu, hybu a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Patrwm Anfantais Diwylliant ac Iaith	Rheolwr Cydraddoldeb	**Cyfredol✓**
1.3	Mabwysiadu Siarter Iaith Arwyddion Prydain	Rheolwr Cydraddoldeb	**2007✓**
1.4	Rhagbrofi rhaglen hyfforddiant BSL mewnol yn targedu staff rheng flaen	Rheolwr Cydraddoldeb	**2007✓**
1.5	Hyrwyddo'r Patrwm Cymdeithasol o Anabledd a'r Patrwm Anfantais Diwylliant ac Iaith yn holl sesiynau hyfforddiant a chynefino perthnasol.	Rheolwr Cydraddoldeb a Rheolwr Hyfforddiant	**Cyfredol✓**
1.6	Gwella Cist Offer Asesu Effaith i hyrwyddo deall y Patrwm Cymdeithasol o Anabledd a'r Patrwm Anfantais Diwylliant ac Iaith	Rheolwr Cydraddoldeb	**2007✓**
1.7	Tynnu sylw at y ffaith bod anghenion a dyheadau pobl anabl yn amrywiol yn dibynnu ar eu hoed, rhyw, ethnigrwydd, crefydd neu gred arall, tueddfryd rhywiol a dull o fyw a ddewiswyd.	Rheolwr Cydraddoldeb	**Cyfredol✓**

Crynodeb o Gynnydd

- Cyflawnwyd holl gamau gweithredu o fewn Amcan 1 neu cawsant eu dechrau fel camau cyfredol.
- Cynllun Hyfforddiant Cydraddoldeb newydd i gael ei ddatblygu yng ngwanwyn 2008 fydd yn cynorthwyo Amcanion 1 a 2.
- Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch archwilio gofynion Siarter BSL.
- Yn ystod 2007 cwblhaodd y Cyngor hyfforddiant rhagbrofol Iaith Arwyddion Prydain. O ganlyniad mae 28 o staff wedi cael cymhwyster sylfaenol mewn BSL. Mae rhagor o raglenni hyfforddi BSL yn yr arfaeth.
- Adolygodd y Cyngor ei Lawlyfr Delwedd Gorfforaethol yn 2007 sy'n cynnwys cyngor ymarferol ar sut i wneud cyhoeddiadau a gwybodaeth yn hygyrch ac mae wedi ymgorffori'r arferion da hyn yn ei ddelwedd gorfforaethol at ei gilydd.
- Prosiect Archwilio – mudiad celfyddydau i bobl anabl yn canolbwyntio ar bobl anabl a byddar fel cynulleidfaoedd, cyfranogwyr ac arlunwyr yn ystod 2008

Sylwadau Grŵp y CCA

- Mae Grŵp y CCA wedi mesur cynnydd yn ystod 2007 fel "da" ond mae hefyd wedi cadarnhau y dylai hyn fod yn faes blaenoriaethol yn 2008 ar y cyd ag Amcan 2. Caiff hyfforddi staff ei weld fel allweddol i fater cyfan anabledd a hygyrchedd. Dylid darparu hyfforddiant yn ôl swyddogaeth a bydd rhai aelodau'r staff angen hyfforddiant arbenigol ar rai amgylchiadau.

AMCAN 2: Sicrhau bod staff ymhob haen ac Aelodau'n cael hyfforddiant priodol ac yn ymwybodol o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau wrth gyflawni'r cynllun hwn a'r agenda cydraddoldeb ehangach

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
2.1	Ymwneud â grwpiau anabledd lleol i gynhyrchu pecyn hyfforddiant anabledd cynhwysfawr yn anelu at • wella dealltwriaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o anabledd • hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at anabledd • datblygu sgiliau a hyder i ddylunio atebion priodol	Rheolwr Cydraddoldeb a Rheolwr Hyfforddiant	**2008**
2.2	Ychwanegu gwybodaeth am gydraddoldeb at lawlyfr "Gwerthu i'r Cyngor"	Rheolwr Cydraddoldeb	**Ionawr 2007✓**
2.3	Staff ac Aelodau i gwblhau'r modiwl hyfforddiant cyfrifiadurol ymwybyddiaeth o anabledd fel y cyflwyniad sylfaenol i faterion anabledd.	Rheolwr Cydraddoldeb a Rheolwr Hyfforddiant	**Cyfredol✓**
2.4	Dechrau ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac anabledd mewn sesiynau cynefino staff yn canolbwyntio ar ddiwylliant "gallaf wneud" ac yn datblygu agweddau cadarnhaol	Rheolwr Cydraddoldeb a Rheolwr Hyfforddiant	**Ionawr 2007✓**
2.5	Cynyddu hyfforddiant a chefnogaeth i Gydgysylltwyr Cydraddoldeb ac ysgrifenwyr polisi ar Asesiadau Effaith effeithiol a'u swyddogaeth mwyn arolygu cydraddoldeb gwasanaethau.	Rheolwr Cydraddoldeb a Chydgysylltwyr Cydraddoldeb Adrannol.	**2008**

Crynodeb o Gynnydd

- Cafwyd cryn gynnydd ym maes hyfforddiant fel tynnu sylw at y patrwm cymdeithasol o anabledd, cydraddoldeb i bobl anabl a gofynion cyfreithiol, ymwybyddiaeth o anabledd a materion hygyrchedd. Mae tua 700 o staff wedi cwblhau modiwlau hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein.
- Mae hon yn weithred gyfredol a byddwn yn dal i greu ymwybyddiaeth o anabledd yn y trefniadau cynefino ar gyfer staff ac Aelodau newydd, gan hyrwyddo manteisio ar y modiwl hyfforddiant anabledd ar-lein a gweithio gyda Grŵp y CCA ac eraill i ddatblygu modiwl hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o anabledd.

Sylwadau Grŵp y CCA

- Mae Grŵp y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn cyfrif cynnydd fel "da - gweddol" ac mae wedi cytuno y dylai hyfforddiant ac ymwybyddiaeth fod yn flaenoriaeth yn 2008 ar y cyd ag Amcan 1. Mae angen i hyfforddiant fod yn berthnasol a chael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac mae angen cadw cofnodion da o bawb sydd wedi mynychu a beth newidiodd o ganlyniad. Mae angen adnoddau i wneud hyn yn effeithiol.

AMCAN 3: Sicrhau bod holl wasanaethau, mannau cysylltu a gwybodaeth y Cyngor yn gwbl hygyrch i holl ddinasyddion

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
3.1	Cwblhau cynllun rhagbrofol a chynllun hyfforddiant BSL i gynyddu nifer y staff sy'n fedrus yn Iaith Arwyddion Prydain	Rheolwr Cydraddoldeb mewn partneriaeth â Chymdeithas Pobl Fyddar Cymru	**Ystyried yn Ionawr 2007 ✓**
3.2	Ymdoddi ymwybyddiaeth o anabledd a hyfforddiant cydraddoldeb i hyfforddiant gofalu am y cwsmer ar gyfer holl staff y rheng flaen	Rheolwr Cydraddoldeb a Rheolwr Hyfforddiant	**2008**
3.3	Gwella trefniadau at ddarparu gwybodaeth ar ffurfiau hygyrch	Rheolwr Cydraddoldeb a Rheolwr Effeithiolrwydd Corfforaethol	**2008**
3.4	Cyhoeddi taflen gwasanaethau hygyrch i gwsmeriaid	Rheolwr Cydraddoldeb	**2008**
3.5	Mynd ati i hybu defnyddio Type-talk	Rheolwr Cydraddoldeb	**Cyfredol ✓**
3.6	Adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu a Llawlyfr Delwedd Gorfforaethol	Rheolwr Cyfathrebu	**Chwefror 2007 ✓**
3.7	Hyrwyddo gwefan wobrwyol CBSW fel patrwm o arferion da ac yn cael ei gwella a'i datblygu'n barhaol	Prif Swyddog Systemau Gwybodaeth	**Cyfredol ✓**
3.8	Sefydlu cyfundrefnau arolygu sy'n mesur gwelliannau i fywydau pobl anabl yn ymarferol	Rheolwr Cydraddoldeb	**I'w gadarnhau**
3.9	Adeiladu ar gysylltiadau lleol sydd wedi sefydlu i sicrhau cynnwys pobl anabl wrth ddylunio trefniadau rheoli cysylltiadau â'r cwsmer	Rheolwr Effeithiolrwydd Corfforaethol	**I'w gadarnhau**

Crynodeb o Gynnydd

- Cysylltwyd rhan hon y cynllun gweithredu â Safonau cysylltiedig â Strategaeth Hygyrchedd Gwasanaethau i Gwsmeriaid a hyfforddi staff. Wrth i'r Cyngor symud tuag at sefydlu ei siop un alwad mae cynllun cynhwysfawr hyfforddiant gofalu am y cwsmer yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2008 ymlaen.
- Mae gwefan y Cyngor wedi ennill gwobrau'n cadarnhau ei fod yn un o wefannau awdurdod lleol mwyaf hygyrch yn y DU.
- Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant i staff ar ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid ffôn Typetalk ac mae'n arddangos taflenni a hysbysrwydd i dynnu sylw'r cyhoedd at y gwasanaeth

Sylwadau Grŵp y CCA

Mae Grŵp y CCA wedi cyfrif cynnydd fel “da - gweddol” ac mae wedi cadarnhau hygyrchedd gwasanaethau fel blaenoriaeth yn 2008. Mae mannau cysylltu â chwsmeriaid angen sylw penodol.

AMCAN 4: Hyrwyddo gweithio ar y cyd ar draws pob sector i sicrhau bod anghenion merched a dynion, bechgyn a merched anabl yn cael eu deall a'u diwallu.

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
4.1	Sefydlu achlysur blynyddol ymwybyddiaeth o anabledd gyda phartneriaid yng Nghyngor Wrecsam	Rheolwr Cydraddoldeb	**Gorffennaf 2007✓**
4.2	Ymgynghori â phartneriaid ar sefydlu partneriaeth cydraddoldeb cyrff cyhoeddus / o fewn Wrecsam	Rheolwr Cydraddoldeb a Swyddog Datblygu Economaidd	**2007 ✓**
4.3	Gofyn bod pob Partneriaeth Strategol yn Wrecsam yn gwneud darpariaeth yn ei hagenda i ystyried cydraddoldeb i bobl anabl ac, yn arbennig, sut fydd yn ymateb i Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl.	Rheolwr Partneriaeth a Rheolwr Cydraddoldeb	**Mawrth 2007✓**
4.4	Adolygu Cynlluniau partneriaid yn y sector cyhoeddus ac achub ar bob cyfle i wneud newidiadau a gwelliannau cynaliadwy	Grŵp y CCA	**2007✓**
4.5	Ystyried sut y gall cyrff cyhoeddus rannu achlysuron ymgynghori, hyfforddiant a dysgu	Grŵp y CCA	**2007✓**
4.6	Cylchlythyru gwybodaeth am ddeddfwriaeth i sefydliadau masnachu a busnesau lleol a dweud wrthynt beth sy'n digwydd yn lleol	I'w gadarnhau	**2007✓**

Crynodeb o Gynnydd

- Cynhaliwyd achlysur ymwybyddiaeth o anabledd ym mis Gorffennaf 2006. Y gobaith yw y bydd Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl bob Rhagfyr yn dod yn ganolbwynt achlysuron blynyddol. Cynhaliwyd achlysur yn NEWI eleni i lansio Canolfan Astudiaethau Anabledd.
- Erbyn hyn mae staff allweddol cydraddoldeb o gyrff cyhoeddus yn ardal Wrecsam yn cyfarfod yn anffurfiol a'r gobaith yw y bydd y grŵp hwn yn cytuno ar gylch gorchwyl yn 2008 ac yn sefydlu cysylltiadau â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i hyrwyddo gwaith ychwanegol ar y cyd ar hyd a lled Wrecsam.
- Darparodd y Cyngor achlysur hyfforddi am ddim "Gwneud Anabledd yn Fusnes i Chi" fel rhan o Wythnos Fusnes Wrecsam. Mynychodd dros 25 o bobl o fusnesau lleol yr achlysur ym mis Hydref 2007. Y disgwyl yw y bydd hyn yn dod yn achlysur blynyddol.

Sylwadau Grŵp y CCA

- Mae Grŵp y CCA wedi cyfrif cynnydd fel "da - gweddol" a nododd bod y Grŵp Amhariad Corfforol, Niwrolegol a Synhwyraidd (Grŵp PNSI) yn arolygu Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl cyrff cyhoeddus o ran iechyd, gofal cymdeithasol a ffyniant ac yn awyddus i osgoi ailadrodd neu ddrysu rhwng swyddogaethau. Byddant yn dal i gadw golwg ar Gynllun y Cyngor a gweld bod ei adroddiad

blynyddol a diweddariadau ar gael i'r Grŵp PNSI fel y ceisiwyd. Bydd y Grŵp PNSI, GWH a Grŵp y CCA yn dal i rannu gwybodaeth o ddiddordeb.

AMCAN 5: Datblygu peirianwaith i hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad defnyddwyr anabl gwasanaethau o bob oed wrth ddylunio gwasanaethau

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
5.1	Sefydlu Grŵp Cyfranogi, Arolygu ac Adolygu Defnyddwyr Gwasanaethau i ddatblygu a chadw golwg ar y cynllun hwn a chynlluniau gweithredu adrannau unigol.	Rheolwr Cydraddoldeb	**Dechrau yn Chwefror 2007✓**
5.2	Datblygu a chyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol Gynhwysfawr ar Ymgynghori ac Ymgysylltu sy'n rhoi sylw i anghenion holl grwpiau oedran	Rheolwr Cyfathrebu	**2008**
5.3	Sefydlu Grŵp Wrecsam Hygyrch	Rheolwr Cydraddoldeb	**Mehefin 2007✓**
5.4	Cynnal arolwg cyfnodol o fodlonrwydd cwsmeriaid i sicrhau bod pobl anabl o bob oed yn cael cynrychiolaeth dda	Rheolwr Cyfathrebu	**I'w gadarnhau**
5.5	Ystyried sut fyddai modd denu pobl anabl i brosesau archwilio a gwerthuso prif ffrwd	Grŵp y CCA	**I'w gadarnhau**
5.6	Ystyried datblygu a mabwysiadu Siarter Defnyddwyr Gwasanaethau	Rheolwr Cydraddoldeb	**I'w gadarnhau**
5.7	Datblygu taflen newyddion rhwydwaith defnyddwyr gwasanaethau i rannu gwybodaeth ar faterion anabledd, digwyddiadau perthnasol a hysbysrwydd	Grŵp y CCA	**2008**
5.8	Ymchwilio cyfleoedd ariannu (e.e. Creu'r Cysylltiadau) i hyrwyddo cyfranogiad ac ymgysylltiad pobl anabl o bob oed	Rheolwr Cydraddoldeb	**I'w gadarnhau**
5.9	Datblygu rhwydwaith eang a chynhwysol o ddefnyddwyr anabl gwasanaethau	Rheolwr Cydraddoldeb	**Cyfredol✓**

Crynodeb o Gynnydd

- Sefydlwyd Grŵp y CCA ac mae wedi bod yn llwyddiannus yn ystod ei flwyddyn gyntaf.
- Sefydlwyd Grŵp Wrecsam Hygyrch hefyd ac mae gan bob grŵp swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur iawn.
- Trwy sefydlu'r ddau grŵp a gwella rhwydwaith y bobl berthnasol yn y grwpiau hynny mae wedi cynorthwyo datblygu rhwydwaith ehangach o bobl a grwpiau anabl. Erbyn hyn mae dros 80 o bobl a grwpiau lleol gwahanol yn rhan o'r rhwydwaith ac ar y rhestr

bostio, gan gynnwys Grŵp Mynediad Wrecsam, Fforwm Anabledd Wrecsam ac AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam).

Sylwadau Grŵp y CCA

- Ystyriodd Grŵp y CCA bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd “gweddol – gwael” gyferbyn â’r weithred hon. Mae ymdrechion i hyrwyddo cyfranogiad ac ymgysylltiad defnyddwyr anabl gwasanaethau yw amlwg. Er nad yw’n flaenoriaeth ar gyfer y grŵp hwn yn 2008 bydd yn dal i gadw golwg ar gynnydd ac eisiau derbyn diweddariadau ar Strategaeth Gyfranogi Gofal Cymdeithasol Oedolion.

AMCAN 6: Cynyddu nifer y bobl anabl sy'n ceisio, yn cael ac yn cadw swyddi gyda'r Cyngor

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
6.1	Adolygu Canllawiau denu a dewis a datblygu defnyddio gwefan y Cyngor fel dull o hyrwyddo CBSW fel cyflogwr cyfle cyfartal a galluogi rhaglenni gwe	Prif Swyddog Personél	**2007✓**
6.2	Cyhoeddi llawlyfr diwygiedig "Gweithio i'r Cyngor" ac adolygu pecynnau ymgeisio am swydd	Prif Swyddog Personél	**I'w gadarnhau**
6.3	Cyhoeddi canllawiau cydraddoldeb i reolwyr a chynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun "Cadarnhaol ynghylch Pobl Anabl"	Prif Swyddog Personél	**2007✓**
6.4	Cyhoeddi data blynyddol arolygu cydraddoldeb ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd	Prif Swyddog Personél	**(blynyddol) ✓**
6.5	Cael mwy i fanteisio ar a thynnu sylw at asesiadau gweithle a chadw cyswllt ag Iechyd Galwedigaethol i ddatblygu mesurau priodol sy'n cefnogi gweithwyr cyflogedig sydd ag anghenion penodol cysylltiedig ag amhariad neu anabledd presennol neu sydd newydd ei ddiagnosio / nodi	Prif Swyddog Personél	**Gorffennaf 2007✓**
6.6	Gweithio gydag ysgolion lleol i sefydlu achlysur blynyddol Ymadawyr Ysgol yn targedu pobl ifanc anabl er mwyn hybu profiad gwaith, profi swyddi a chyfleoedd gyrfaol yn CBSW a'i Bartneriaid	Prif Swyddog Personél / Rheolwr Hyfforddiant / Prif Swyddog Datblygu Economaidd / Prif Swyddog Dysgu a Chyrhaeddiad	**Under Development**
6.7	Gweithio gydag ysgolion lleol i hybu cyfleoedd profiad gwaith yn y Cyngor a rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion anabl		**Under Development**
6.8	Gweithio gydag ysgolion a cholegau lleol i ddefnyddio "Wythnos Fusnes Wrecsam" i hybu profiad gwaith a chyfleoedd gyrfaol sy'n targedu pobl ifanc anabl		**2008✓**
6.9	Asesu'r angen i sefydlu grŵp cefnogi staff anabl	Prif Swyddog Personél	**Ar y gweill**
6.10	Asesu ymarferoldeb sefydlu rhwydwaith rhithwir ar gyfer staff anabl gan gynnwys cyfleuster "hysbysfwrdd"	Prif Swyddog Systemau Gwybodaeth	**Ar y gweill**
6.11	Adolygu'r Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu	Prif Swyddog Personél	**Gorffennaf 2007✓**
6.12	Adolygu a datblygu cipio, dadansoddiad a threfniadau cyhoeddi data arolygu cydraddoldeb i bobl anabl i sicrhau bod modd mesur canlyniadau ac effeithiau hirdymor polisïau ar gyflogeion anabl.	Prif Swyddog Personél	**2008**

Crynodeb o Gynnydd

- Llwyddodd y Cyngor i gadw'r dyfarniad Cadarn o Blaid Pobl Anabl pan ailaseswyd yn 2007.
- Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu cynllun i hyrwyddo cyfleoedd profiad gwaith a "blasu gwaith" ar gyfer pobl anabl. Sefydlwyd grŵp i edrych ar hyn ac rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner gan gynnwys Remploy a Chanolfan Byd Gwaith i ddatblygu prosiect perthnasol ac ystyrlon
- Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i gynllun "Hawl i Weithio" Canolfan Byd Gwaith yn y Cyngor ac anfonwyd gwybodaeth at holl reolwyr y Cyngor. Yn dilyn achlysur llwyddiannus cynyddu ymwybyddiaeth a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2007 mae nifer o staff wedi defnyddio'r cynllun i gael cyngor a chefnogaeth ymarferol gan gynnwys asesiadau gweithle.
- Mae'r Cyngor wedi adolygu a disodli ei Bolisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu gyda Pholisi Urddas yn y Gweithle newydd yr aseswyd ei effaith ac sy'n rhoi sylw i ofynion y ddyletswydd anabledd.
- Bydd Adran Adnoddau Dynol y Cyngor yn cyhoeddi Strategaeth Pobl newydd yn 2008 ac mae wedi cynnwys datblygu'r cynllun profiad gwaith yn ei gynllun gwasanaeth blynyddol ar gyfer 2008. Yn ogystal mae wedi cynyddu ei darged ac yn defnyddio dangosydd perfformiad i gadw golwg ar batrwm proffiliau gweithwyr cyflogedig.

Sylwadau Grŵp y CCA

- Mae Grŵp y CCA wedi asesu cynnydd fel "gweddol i wael" er ei fod yn derbyn bod hwn yn fater anodd fydd yn cymryd amser i roi sylw iddo ac yn dibynnu ar gyfundrefnau arolygu a dadansoddi data cadarn. Gwnaeth y Grŵp y sylw hefyd ei bod yn anodd deall y swyddogaeth Adnoddau Dynol ac awgrymodd wahodd aelod o staff Adnoddau Dynol i fynychu cyfarfodydd y Grŵp CCA i hwyluso datblygu dealltwriaeth o fewn y Grŵp.

AMCAN 7: Ymdoddi cydraddoldeb i bobl anabl yn swyddogaethau caffael y Cyngor a threfniadau ar gyfer rheoli gwaith dan gontract i'r Cyngor neu ar ei ran

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
7.1	Cynnal archwiliad cylch llawn o drefniadau caffael a chytundebol presennol a datblygu cynllun gweithredu i sicrhau agwedd drefnus, gymesur, deg a chyson ar draws pob adran	Rheolwr Caffael	**2008**
7.2	Cyhoeddi canllawiau cydraddoldeb i Gontractwyr	Rheolwr Caffael a Rheolwr Cydraddoldeb	**I'w gadarnhau**
7.3	Cynnal sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer mudiadau cymunedol a gwirfoddol sy'n gweithio dan Gytundebau Lefel Gwasanaethu a Chontractau i gynyddu ymwybyddiaeth o ddyletswyddau cyfreithiol a nodau'r Cyngor ar gydraddoldeb	Rheolwr Cydraddoldeb a Rheolwr Hyfforddiant	**Cyfredol Mawrth 2007✓**
7.4	Adolygu'r egwyddorion ac argymhellion ar gontractio sy'n cael eu hamlinellu yn y "Protocol ar y Cyd rhwng Canolfan Genedlaethol Byw'n Annibynnol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol at Ddarparu Canolfannau Byw yn Annibynnol a Gwasanaethau Cefnogi dan Arweiniad Defnyddwyr"	Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol	**2007**

Crynodeb o Gynnydd

- Cynhaliwyd nifer o achlysuron caffael yn ystod 2007 i ystyried cydraddoldeb i bobl anabl a threfniadau presennol. Bydd asesiad effaith llawn yn cael ei ddechrau yn 2008.
- Trefnwyd digwyddiadau penodol ar gyfer y sector cymunedol a gwirfoddol a byddant yn cael eu cynnig drwy gydol y flwyddyn a phan fydd cais amdanynt. Bydd y Cyngor yn dal i weithio gydag AVOW i nodi a rhoi sylw i anghenion hyfforddiant lleol.
- Mae cyfarwyddyd yn cael ei roi i gontractwyr sy'n cynnwys gwybodaeth am y dyletswyddau cydraddoldeb.

Sylwadau Grŵp y CCA

- Mae Grŵp y CCA wedi asesu cynnydd fel "gweddol – gwael" a mynegodd ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r asesiad effaith a dysgu mwy am gaffael.

AMCAN 8: Ymdoddi cydraddoldeb i bobl anabl ym musnes a fframwaith cynllunio gwasanaethau'r Cyngor gan gynnwys trefniadau rheoli perfformiad

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
8.1	Cynnwys cydraddoldeb yn y llawlyfr cynllunio gwasanaethau	Rheolwr Perfformiad a Gwelliant a hyfforddiant cysylltiedig	**O 2007 ymlaen (blynyddol) ✓**
8.2	Cyfeiriad penodol at fesurau i hyrwyddo cydraddoldeb, ymladd yn erbyn anffafriaeth ac asesiadau effaith i'w cynnwys mewn adroddiadau polisi	Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	**Mawrth 2007✓**
8.3	Asesu manteision sefydlu dangosyddion a mesurau perfformiad lleol perthnasol	Rheolwr Perfformiad a Gwelliant	**I'w gadarnhau**

Crynodeb o Gynnydd

- Erbyn hyn mae'r dyletswyddau cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio mewn trefniadau rheoli perfformiad, wrth gynllunio gwasanaethau a chyfarwyddyd cysylltiedig, ac o fewn Cist Offer Ymdoddi Wrecsam.
- Mae Cist Offer Rheoli Prosiectau'r Cyngor hefyd yn cynnwys cyfarwyddyd ar y dyletswyddau cyfreithiol – bydd yn dal i fesur pa mor effeithiol yw hyn a gwella bob blwyddyn.
- Mae'r Uned Gwella Perfformiad yn cadw golwg ar berfformiad adrannau gyferbyn â'r dyletswyddau cydraddoldeb a'r rhaglen asesu effaith.
- Caiff dangosyddion perfformiad lleol eu hadolygu bob blwyddyn a'u harolygu bob chwarter.

Sylwadau Grŵp y CCA

- Mae Grŵp y CCA wedi asesu cynnydd fel "gweddol" ac yn derbyn y bydd y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2008 yn effeithio'n sylweddol ar yr amcan hwn ac efallai y bydd angen ei ailystyried.

AMCAN 9: Ymdoddi cydraddoldeb i bobl anabl ym mholisi a fframwaith penderfynu'r Cyngor

Cyf.	Gweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
9.1	Mabwysiadu Llawlyfr Datblygu Polisi CBSW i'w ddefnyddio ar draws pob adran	Rheolwr Perfformiad a Gwelliant	**I'w gadarnhau**
9.2	Adolygu gofynion ymchwil a data i hyrwyddo targedu polisïau a dyrannu adnoddau'n effeithiol	Rheolwr Perfformiad a Gwelliant	**I'w gadarnhau**
9.3	Datblygu defnyddio Asesiadau Effaith fel offeryn allweddol i ymdoddi cydraddoldeb a sicrhau ymgysylltiad pobl anabl wrth nodi mesurau i hyrwyddo cydraddoldeb a rhoi sylw i anghenion penodol	Rheolwr Cydraddoldeb	**Cyfredol✓**
9.4	Asesu cyfleoedd i nodi a thargedu pobl anabl (er enghraifft: ceiswyr y Cynllun Bathodyn Glas) i gynorthwyo cynyddu ymwybyddiaeth o faterion lleol a hyrwyddo ymgysylltiad pobl anabl o bob oed mewn bywyd lleol	Rheolwr Cydraddoldeb	**2008**
9.5	Llunio fframwaith rheoli asesiadau effaith sy'n cynnwys cadarnhad ar ddiwedd adroddiad y gwnaed asesiad effaith	Prif Swyddog y Gyfraith a Gwasanaethau Democrataidd	**2007✓**

Crynodeb o Gynnydd

- Cyflwynwyd y gist offer asesu effaith cydraddoldeb yn 2005 a'i hadolygu yn 2008. Mae'r Cyngor wedi sefydlu cyfundrefn asesiadau effaith ac mae rhaglen asesu effaith yn bodoli.
- Mae holl bolisïau newydd ac arfaethedig yn agored i asesiad effaith ac mae gofyn i adroddiadau'r Bwrdd Gweithredol gynnwys cadarnhad y gwnaed asesiad effaith cydraddoldeb cyn bo modd ystyried yr adroddiad a drafft y polisi.
- Mae mwy na 500 o staff wedi mynychu hyfforddiant asesu effaith a, hyd yma, mae dros 100 o bolisïau newydd a phresennol wedi cael asesiad effaith.
- Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu trefniadau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu, a bydd Strategaeth Gyfranogi ac Ymgysylltu newydd yn cael ei lansio yn 2008.

Sylwadau Grŵp y CCA

- Mae Grŵp y CCA wedi asesu cynnydd fel "da – gweddol" ac yn derbyn bod y Cyngor yn ymroddi i wella'n barhaol y fframwaith polisi ac wedi gwneud nifer o newidiadau cadarnhaol.

AMCAN 10: Sicrhau bod anabledd a chydraddoldeb mynediad yn cael ei ystyried yn llawn yn holl faterion perthnasol i'r amgylchedd adeiledig a chludiant

Cyf.	Cweithred	Swyddog Arweiniol	Amserlen
10.1	Adolygu trefniadau ymgynghori a chynlluniau presennol i sicrhau bod ymgynghori'n hygyrch	Prif Swyddog Cynllunio a Phrif Swyddog Cludiant a Rheoli Asedau	**2007✓**
10.2	Nodi anghenion sgiliau a hyfforddiant staff allweddol ym meysydd Cynllunio a Chludiant i sicrhau archwilio ceisiadau / cynigion cynllunio'n effeithiol	Fel yr uchod.	**I'w gadarnhau**
10.3	Sicrhau bod staff / partneriaid / contractwyr sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno gwasanaethau a chynlluniau'n effeithio ar yr amgylchedd adeiledig a chludiant yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb i bobl anabl	Fel yr uchod.	**I'w gadarnhau**
10.4	Sefydlu Grŵp Wrecsam Hygyrch fel partneriaeth leol / grŵp defnyddwyr gwasanaeth fel grŵp cynghori i gynorthwyo ymdoddi cydraddoldeb i bobl anabl a mynediad i bobl anabl	Fel yr uchod.	**Mehefin 2007✓**

Crynodeb o Gynnydd

- Sefydlwyd grŵp yn 2007 i edrych ar geisiadau cynllunio a datganiadau hygyrchedd cynllunio gydag uwch-swyddog cynllunio. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer y grŵp ym mis Hydref 2007.
- Sefydlwyd Grŵp Wrecsam Hygyrch ac mae'n gweithio'n dda, Grŵp y CCA sy'n gweithio'n dda ac yn cynorthwyo gwneud cysylltiadau. Mwy o gyswllt a hyfforddi ar y cyd rhwng swyddogion cludiant a chynllunio.
- Llawlyfr Hygyrchedd ar y gweill i gynorthwyo gyda datganiadau hygyrchedd a sicrhau bod anabledd yn cael ei gynnwys yn fanwl mewn ceisiadau cynllunio.
- Cynllun Datblygu Lleol – dogfen allweddol ar gynllunio – cyflwynwyd achosion gan aelodau cymuned pobl fyddar yn dilyn gweithdy arbennig. Ymgynghorwyd yn helaeth.

Sylwadau Grŵp y CCA

Mae Grŵp y CCA wedi asesu cynnydd fel "da – gweddol" ac mae wedi cytuno ar hyn fel maes blaenoriaethol ar gyfer 2008.

Atodiad 1

Crynodeb o Weithdy CCA a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2008

Cynllun Cydraddoldeb Anabledd Pwyso a Mesur 2007 a Phennu Blaenoriaethau 2008	**Cynnydd yn ystod 2007**				**Tair blaenoriaeth uchaf**
	Rhagorol	Da	Gweddol	Gwael	
CCA 1: Cynyddu ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth o anabledd a hyrwyddo delweddau cadarnhaol o ddynion a merched, bechgyn a merched anabl		✓			**Cyfuno 1 a 2** **Blaenoriaeth 2**
CCA 2: Sicrhau bod staff ymhob haen ac Aelodau'n cael hyfforddiant priodol ac yn ymwybodol o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau wrth gyflawni'r cynllun hwn a'r agenda cydraddoldeb ehangach		✓			
CCA 3: Sicrhau bod holl wasanaethau, mannau cysylltu a gwybodaeth y Cyngor yn gwbl hygyrch i holl ddinasyddion		✓			**Blaenoriaeth 1**
CCA 4: Hyrwyddo gweithio ar y cyd ar draws pob sector i sicrhau bod anghenion merched a dynion, bechgyn a merched anabl yn cael eu deall a'u diwallu.		✓			
CCA 5: Datblygu peirianwaith i hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad defnyddwyr anabl gwasanaethau o bob oed wrth ddylunio gwasanaethau			✓		

Cynllun Cydraddoldeb Anabledd Pwyso a Mesur 2007 a Phennu Blaenoriaethau 2008	Cynnydd yn ystod 2007				Tair blaenoriaeth uchaf
	Rhagorol	Da	Gweddol	Gwael	
CCA 6: Cynyddu nifer y bobl anabl sy'n ceisio, yn cael ac yn cadw swyddi gyda'r Cyngor			✓		
CCA 7: Ymdoddi cydraddoldeb i bobl anabl yn swyddogaethau caffael y Cyngor a threfniadau ar gyfer rheoli gwaith dan gontract i'r Cyngor neu ar ei ran			✓		
CCA 8: Ymdoddi cydraddoldeb i bobl anabl ym musnes a fframwaith cynllunio gwasanaethau'r Cyngor gan gynnwys trefniadau rheoli perfformiad			✓		
CCA 9: Ymdoddi cydraddoldeb i bobl anabl ym mholisi a fframwaith penderfynu'r Cyngor		✓			
CCA 10: Sicrhau bod anabledd a chydraddoldeb mynediad yn cael ei ystyried yn llawn yn holl faterion perthnasol i'r amgylchedd adeiledig a chludiant		✓			**Blaenoriaeth 3**

Grŵp Cynllun Cydraddoldeb Anabledd (Arolygu ac Adolygu)
Cylch Gorchwyl / Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Bydd y Grŵp Cynllun Cydraddoldeb Anabledd (Arolygu ac Adolygu) yn tynnu ynghyd defnyddwyr gwasanaethau a swyddogion allweddol. Ei swyddogaeth fydd arolygu ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd y Cyngor:

- Arolygu ac ymateb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar strwythur a chynnwys Cynllun Cydraddoldeb Anabledd y Cyngor

- Cynorthwyo arolygu Cynllun Gweithredu'r CCA gan gynnwys perfformiad gyferbyn â thargedau a gytunwyd ac effaith y Cynllun ar ddefnyddwyr gwasanaethau

- Arolygu agwedd y Cyngor at ei Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl.

- Cynorthwyo datblygu rhwydwaith cryf o ddefnyddwyr gwasanaethau o grwpiau ac unigolion lleol a chyfranogi mewn rhannu gwybodaeth berthnasol, profiadau ac awgrymiadau.

- Cynorthwyo gyda chynhyrchu adroddiad arolygu blynyddol ar gynnydd y Cyngor mewn cysylltiad â thargedau ei gynllun gweithredu.

- Rhoi cyngor a chefnogaeth i adrannau CBSW ar ddatblygu, coethi ac adolygu eu cynlluniau gweithredu.

- Cynghori ar ddatblygu trefniadau arolygu

- Cynorthwyo'r Cyngor wrth adolygu a newid y CCA

Atodiad 3

Grŵp Wrecsam Hygyrch

Cylch Gorchwyl / Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Mae Grŵp Wrecsam Hygyrch yn tynnu ynghyd ac ymgysylltu Rhanddeiliaid, Partneriaid a swyddogion allweddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fydd yn gweithio fel partneriaid i wneud Wrecsam yn dref hygyrch. Nod y grŵp yw cynorthwyo'r Cyngor ateb gofynion Deddf Anffafrio'r Anabl 1995 a'i Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl a nodwyd yn Neddf Anffafrio'r Anabl 2005.

Bydd Grŵp Wrecsam Hygyrch yn gwneud y canlynol:

- Darparu fforwm trafodaeth agored lle gall rhanddeiliaid, partneriaid, pobl anabl a grwpiau neu fudiadau lleol godi materion sy'n effeithio ar fynediad yn Wrecsam fel bod modd trafod y materion hynny a'u dwyn ymlaen fel y bo'n briodol.

- Cynghori ar ganlyniadau posibl i bobl anabl yn deillio o sut mae'r Cyngor yn datblygu ac yn cyflenwi ei wasanaethau ac yn arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â'r amgylchedd adeiledig gan gynnwys cynllunio a chludiant gan gynnwys materion diogelwch cymunedol.

- Rhoi atborth a sylwadau ar gynigion sylweddol a sut fyddant yn effeithio ar allu pobl anabl i gael gafael ar gyfleusterau a gwasanaethau'r Cyngor.

- Cynorthwyo'r Cyngor nodi a rhoi sylw i rwystrau corfforol a rhwystrau eraill a allai effeithio'n negyddol ar bobl anabl.

- Cynorthwyo'r Cyngor wneud asesiadau effaith anabledd ystyrlon a datblygu agwedd gynhwysol a grymuso sy'n hyrwyddo mynediad cyfartal i ddinasyddion anabl

- Cynorthwyo'r Cyngor ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu'n effeithiol gyda phobl anabl

- Cefnogi cyflawni, datblygu ac arolygu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd y Cyngor a chadw cyswllt â'r Grŵp Cynllun Cydraddoldeb Anabledd (Arolygu ac Adolygu) fel sy'n berthnasol a phriodol

Grŵp Rhaglen Byw'n Annibynnol (PSNI)

CYLCH GORCHWYL

Mae'r Grŵp Rhaglen Byw'n Annibynnol (Materion Corfforol, Synhwyraidd a Niwrolegol) [byrfodd: IL(PSNI)PG] yn atebol trwy'r Grŵp Arolygu Perfformiad i Fwrdd y Bartneriaeth, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr ymateb lleol i agenda eginol iechyd, gofal cymdeithasol a ffyniant Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Fel rhan o fframwaith cynllunio strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant (byrfodd: HSCWb), mae IL(PSNI)PG yn cysylltu â'r:

- Grŵp Rhanddeiliaid Materion Anabledd
- Partneriaeth Gynllunio Cynllun Cydraddoldeb Anabledd
- Grŵp Cyswllt Partneriaethau
- Grŵp Cyd-gomisiynu HSCWb

Mae IL(PSNI)PG yn grŵp ymgynghori / cyfeirio fforwm agored, a grŵp cynghori sy'n amcanu at gefnogi datblygiad comisiynu gwasanaethau ar y cyd sy'n hybu iechyd, gofal cymdeithasol a ffyniant pobl anabl a'r Gymuned Fyddar Ddiwylliannol.

Mae IL(PSNI)PG yn derbyn diffiniad a defnydd y term 'anffafrio anabledd', sy'n golygu "ymddygiad anffafriol, gormesol neu dreisiol yn codi o'r gred bod pobl anabl yn israddol i eraill".

Mae PG yn gweithio tuag at ddileu anffafrio anabledd ac mae'n hyrwyddo gweithredu'n llawn y patrwm cymdeithasol o anabledd a'r patrwm diwylliant ac iaith o anfantais gyfunol a fabwysiadwyd gan y Gymuned Fyddar Ddiwylliannol.

Gweledigaeth IL(PSNI)PG yw diwylliant lle bydd cynhwysiad cymdeithasol a byw yn annibynnol yn ffordd o fyw i holl bobl anabl a Phobl Fyddar Ddiwylliannol yn Wrecsam. Mae PG yn ceisio cyflawni hyn trwy hyrwyddo cydraddoldeb mynediad at y canlynol:

- gwybodaeth
- tai, adeiladau cyhoeddus a'r amgylchedd
- gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyfun prif ffrwd
- addysg
- cyflogaeth
- cludiant, ac
- iaith, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain.

Bydd IL(PSNI)PG yn gwneud y canlynol:

- Darparu fforwm agored at ymgynghori ar faterion perthnasol i adran PSNI Strategaeth HSCWb
- Hwyluso gweithio ar y cyd ar ddatblygu, gweithredu, arolygu ac adolygu Strategaeth HSCWb
- Gweithredu fel y grŵp y bydd fforymau defnyddwyr / gofalwyr penodol yn atebol iddo
- Cefnogi datblygiad comisiynu ar y cyd

Nodi'r blaenoriaethau a llunio cynlluniau gweithredu ar gyfer maes y rhaglen, gan sicrhau bod arweiniadau / strategaethau / targedau eginol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Iechyd (e.e. Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol a Thargedau Gwasanaeth a Fframwaith Ariannol) yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r rhaglen waith

- Nodi aelodau arweiniol a sefydlu gweithgorau gorchwyl a gorffen fel y bo'n briodol i ddatblygu cynlluniau gweithredu, rheoli prosiectau mewn meysydd blaenoriaethol dynodedig ac adrodd yn ôl i'r PG
- Gwahodd ymgynghorwyr ac arbenigwyr i roi gwybodaeth ac arweiniad ar faterion blaenoriaethol dynodedig ac yna ddiweddaru'r PG yn ôl y gofyn
- Datblygu ac arolygu ymgysylltu ac ymgynghori effeithiol â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a rhanddeiliaid dynodedig eraill yn unol â Strategaethau Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd mabwysiedig a'r Strategaeth Gyfranogi ar y Cyd sydd i ddod
- Gweithredu fel grŵp cyfeirio i oruchwylio, arolygu ac adolygu strategaethau comisiynu, cynlluniau cyflawni a chamau eraill a nodwyd yn amcanion blaenaf y grŵp
- Rhoi cynrychiolaeth mewn grwpiau adolygu gwasanaeth fel y bo'n briodol
- Rhoi adroddiadau gwaith rheolaidd a gwybodaeth arolygu i'r Grŵp Arolygu Perfformiad
- Hysbysu pryderon a nodwyd i Fwrdd y Bartneriaeth trwy'r Cyd-reolwr Perfformiad
- Cynghori Bwrdd y Bartneriaeth ar faterion polisi sy'n deillio o, ac yn berthnasol i, weithredu Strategaeth HSCWb
- Sicrhau bod holl randdeiliaid yn cael clywed am waith y PG, ar ffurfiau ac mewn ieithoedd priodol
- Cadw cyswllt â PG eraill fel bo angen ac fel sy'n briodol
- Cyfarfod yn unol ag amserlen a gytunwyd.

Aelodaeth PG

Bydd Cadeirydd IL(PSNI)PG yn sicrhau bod holl randdeiliaid yn cael cynrychiolaeth briodol. Bydd aelodaeth PG yn cynnwys cynrychiolwyr:

- Pobl Anabl
- Pobl Fyddar Ddiwylliannol
- Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam (Comisiynwyr)
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru (Rheolwyr, Ymarferwyr)
- Adran Gwasanaethau Cymdeithasol CBSW (Comisiynwyr, Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol)
- Adran Iechyd yr Amgylchedd (Rheolwyr)
- Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
- Cyrff a mudiadau gwirfoddol
- Darparwyr gwasanaethau
- Fforymau defnyddwyr gwasanaethau
- Gofalwyr
- Cyrff perthnasol eraill gyda diddordeb mewn darparu gwasanaethau iechyd a ffyniant priodol i faes y rhaglen

Mae modd cyfethol swyddogion ychwanegol o'r aelodaeth graidd uchod naill ai i'r PG neu ei weithgorau i sicrhau cefnogaeth broffesiynol / arbenigol briodol fel bo angen.

Bydd Aelodau IL(PSNI)PG yn gwneud y canlynol:

- Ymrwymo i fynychu cyfarfodydd neu anfon dirprwy pryd bynnag y bo modd
- Sicrhau y gallant gyflwyno barn gynrychiadol
- Bod â golwg dros bolisïau ac arweiniadau cenedlaethol a lleol o ran gwasanaethau o fewn ardal y PG
- Cytuno i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu a chyfrannu amser, egni, dylanwad, cysylltiadau ac adnoddau
- Cytuno i sicrhau cysylltiadau cyfathrebu effeithiol gyda'r fforwm / mudiad / adran a gynrychiolant, a'i bod yn gweithredu
- Adrodd yn ôl ar weithgareddau IL(PSNI)PG i'r fforwm / mudiad / adran a gynrychiolant

Cadeirydd

Bydd Cadeirydd y PG yn cael ei ethol o'r aelodaeth a gall gynrychioli asiantaeth statudol neu wirfoddol.

Bydd y Cadeirydd yn gwneud y canlynol:

- Cadeirio'r IL(PSNI)PG
- Mynychu'r Grŵp Arolygu Perfformiad arfaethedig ac adrodd yn ôl i'r PG
- Sicrhau bod holl randdeiliaid yn cael cynrychiolaeth briodol
- Sicrhau bod gwybodaeth arolygu a pherfformiad yn cael ei darparu'n brydlon
- Llunio agenda pob cyfarfod
- Sicrhau bod agendâu, cofnodion a gwybodaeth arall yn cael eu darparu'n brydlon ac ar ffurfiau hygyrch ac mewn ieithoedd priodol
- Tynnu i sylw Bwrdd y Bartneriaeth unrhyw aneffeithlonrwydd gyda darparu cymorth gweinyddol priodol i sicrhau bod y PG a'r Gweithgorau'n gweithredu'n effeithiol
- Sicrhau bod IL(PSNI)PG yn cyflawni'r amcanion uchod.

Bydd yr Is-gadeirydd yn gwneud y canlynol:

- Dirprwyo dros y Cadeirydd etholedig
- Mynychu'r Grŵp Arolygu Perfformiad arfaethedig yn absenoldeb y Cadeirydd
- Cynrychioli IL(PSNI)PG fel bo angen yn absenoldeb y Cadeirydd
- Cefnogi'r Cadeirydd i sicrhau bod IL(PSNI)PG yn cyflawni'r amcanion uchod.

Arweiniad i Strwythur Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant